

Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Dewis

Tasgau grŵp Pennod Dau

Trafodwch:

- Beth yw ystyr teitl y stori?
- Pa gyngor hoffech chi roi i Lizzie?
- Pam dych chi'n meddwl bod Lizzie yn poeni cymaint am beth mae pobl yn meddwl amdani?
- Ydych chi wedi cael profiad tebyg o gwbl lle mae pobl wedi cymryd mantais ohonoch chi?
- Beth dych chi'n meddwl am ddewisiadau Lizzie?



Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Tasgau i unigolion Pennod Dau

1. Trefn y stori

Rhowch y brawddegau hyn yn nhrefn y stori:

- Talodd ei dyled, a chyfrif y newid wrth ei gadw yn ei phwrs.
- Gas ganddo fara sych, meddai gan droi ei drwyn, ac ymddiheurodd Lizzie am nad oedd ganddi fenyn.
- Cododd Lizzie y bocs Connoisseur ac anelu am y cownter.
- Wela i di eto, galwodd yntau ar ei hôl wrth iddi anelu at yr arhosfan bysiau.
- Pan gafodd wahoddiad gan Mrs Johnson i'w pharti ymddeol, anrheg oedd y peth cyntaf aeth drwy feddwl Lizzie.
- Estynnodd y saith deg pedwar ceiniog a phlygu i'w osod yn daclus ar yr hances.

2. Geiriau wedi'u treiglo

Mae'r geiriau hyn i gyd wedi cael eu treiglo. Beth yw'r geiriau gwreiddiol?

- **wyn**
- **bacedi**
- **gyflym**
- **wacach**
- **chyfrif**
- **gyfan**
- **faglu**
- **nghantîn**
- **phlygu**
- **fenyg**
- **las**
- **thraed**